



**Cofnodion Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod Cyhoeddus  
Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
a Gynhaliwyd ar 6 Mehefin 2024, 11:00 yn  
Ystafell 3.4, CQ2 a thros Microsoft Teams**

<b>Yn Bresennol:</b>		
Sian Griffiths	(SG)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus)
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwyr Anweithredol (Prifysgol)
Clare Jenkins	(CJ)	Dirprwy Gadeirydd
<b>Hefyd yn Bresennol:</b>		
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd Cyhoeddus
Fliss Bennee	(FB)	Pennaeth Data
Sharon Hillier	(SH)	Cyfarwyddwr yr Is-adran Sgrinio
Danielle Gething	(DG)	Pennaeth Rheoli Risgiau
Alisha Davies	(AD)	Pennaeth Ymchwil a Gwerthuso
Tom Connor	(TCo)	Pennaeth Rhaglen Genomeg Iechyd Cyhoeddus
Jim McManus	(JM)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant
Louisa Nolan	(LN)	Pennaeth Gwyddor Data
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
<b>Ymddiheuriadau</b>		
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trefniadau Llywodraethu Integredig
Nick Elliott	(NE)	Cadeirydd Dros Dro
<i>Dechreuodd y cyfarfod am 11:00</i>		
<b>KRIC 1/2024.06.06 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</b>		
Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawu pawb a oedd yn bresennol.		
<b>Nododd</b> y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gefnogi cywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol ar 5 Medi 2024.		



**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriadau a ddaeth i law gan:

- Tracey Cooper - Prif Weithredwr
- Liz Blayney - Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
- Stuart Silcox - Cyfarwyddwr Cynorthwyol Trefniadau Llywodraethu Integredig
- Nick Elliott – Cadeirydd Dros Dro

**KRIC 2/2024.06.06**

**Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

**KRIC 3/2024.06.06**

**Eitemau Er Sicrwydd**

**KRIC 3.1/2024.06.06**

**Sesiwn Graffu Fanwl: Sgrinio (Blaenoriaeth 6)**

Rhoddodd SH drosolwg o'r rhaglen Sgrinio a'r cysylltiad rhwng ymchwil sy'n ymwneud â gwybodaeth a hysbysrwydd, a gwaith y rhaglen.

Nododd SH fod angen systemau data a digidol diogel ac effeithiol i gyflwyno a gwerthuso rhaglenni sgrinio. Roedd hyn yn cynnwys yr angen am fynediad at setiau data demograffig cywir, i sicrhau bod yr holl bobl gymwys yn cael eu gwahodd a'u rheoli drwy'r llwybr sgrinio a bod dulliau mesur canlyniadau'n cael eu monitro. Disgwylwyd y byddai'r newid i ddull mesur canlyniadau/perfformiad newydd yn digwydd ym mis Mehefin 2024 ac yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd. Bu'r isadran Sgrinio a'r Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth ac Ymchwil yn cydweithio ar hyn.

Derbyniodd y Pwyllgor argymhelliad 1, sef cefnogi'r cydweithio hwn er mwyn gallu gwerthuso effaith y rhaglen sgrinio ar ganlyniadau'r system.

Tynnodd SH sylw at bwysigrwydd cydraddoldeb er mwyn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar raglenni sgrinio, gan bwysleisio'r angen am ragor o wybodaeth am yr holl nodweddion gwarchoddedig gan gynnwys ethnigrwydd. Nododd IB y gwaith a wnaed i ddefnyddio data o gronfa ddata Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) ar sgrinio a oedd yn cynnwys data ar nodweddion gwarchoddedig a'r posibilrwydd o waith i gysylltu data pellach, ond dywedodd mai gwaith dros dro fyddai hwn tra'n aros am ateb hirdymor i gasglu data drwy ap GIG Cymru. Cytunodd IB i ofyn i Lywodraeth Cymru am ddiweddariad ar y cynnydd gyda datblygu'r ap.

### **Camau Gweithredu: IB i fynd ar drywydd hyn**

Derbyniodd y Pwyllgor argymhelliad 2, sef y dylai demograffeg arferol yng Nghymru gynnwys data sy'n galluogi dealltwriaeth fanwl o degwch ar draws yr holl nodweddion gwarchoddedig a nodweddion perthnasol eraill.

Soniodd SH am bwysigrwydd data cywir i ganiatáu ar gyfer gwahoddiadau sgrinio cywir ac i ganiatáu i systemau sgrinio weithio'n effeithiol, ochr yn ochr ag effaith systemau penodol ar gyfer gwahanol raglenni sgrinio. Roedd enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys systemau a ddatblygwyd gan Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) i gwmpasu sgrinio'r coluddyn ac ymlediadau aortig, system Dewis ar gyfer sgrinio'r fron a system fewnol a ddatblygwyd ar gyfer sgrinio serffigol.



Tynnodd SH sylw'r Pwyllgor at rai pryderon hefyd:

- Nid yw system sgrinio babanod newydd-anedig a ddatblygwyd gan IGDC wedi bod yn gweithredu'n iawn ac er gwaethaf trafodaethau gydag IGDC ni ddaethpwyd o hyd i ateb ac mae hynny'n risg i'r system bresennol ac i ehangu gwasanaethau. Roedd hyn oherwydd nad oedd IGDC bellach yn arwain y gwaith contract. Cysylltwyd â'r contractwr gwreiddiol a byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru nawr yn rheoli'r gwaith o greu platfform ar gyfer y system hon gan ddefnyddio buddsoddiad a neilltuwyd.
- Effaith ffrydiau demograffig anghyflawn neu anghywir fel data personol anghywir neu gyfeiriadau sy'n golygu nad yw pobl yn cael eu gwahodd i gael eu sgrinio.
- Roedd y system gwybodaeth canser bresennol (Canis) i'w rhoi ar waith ym mis Hydref/Tachwedd 2024, ac roedd gwaith wedi'i wneud gydag IGDC ar ddatrysiad a fyddai'n cael ei gyflwyno ymhen ychydig wythnosau. Nodwyd ei bod yn bwysig bod data yn galluogi olrhain taith canser, o sgrinio hyd at driniaeth a'i chanlyniadau.

Cytunodd y Pwyllgor i gydnabod y gwaith sy'n mynd rhagddo i sicrhau bod gan y rhaglen sgrinio systemau TG diogel ac effeithiol a'r gwaith sy'n cael ei wneud gyda phartneriaid i geisio datrys y problemau presennol.

Nododd y Pwyllgor yr adroddiad ac **ystyriodd** a **derbyniodd** yr argymhellion.

#### **KRIC 3.2/2024.06.06**

#### **Diweddariad ar Ffactorau'n ymwneud â Ffordd o Fyw**

Rhoddodd JM/JB ddiweddariad ar y gwaith a wnaed ar ffactorau'n ymwneud â ffordd o fyw ers yr eitem ar y gwaith craffu manwl a gyflwynwyd yng nghyfarfod KRIC ym mis Mehefin 2023. Trafodwyd yr angen i egluro bod angen i'r gwaith craffu manwl adeiladu ar drafodaeth flaenorol ac i ddangos bod hyn yn cael ei integreiddio ar draws y systemau sefydliadol.

Trafododd y Pwyllgor beth ddylai fformat a strwythur adroddiadau diweddarau ar waith craffu manwl fod ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol, a nododd y dylid ystyried y ffactorau a ganlyn:

- Gwaith dilynol ar y nodau a ddeilliodd o'r gwaith craffu manwl.
- Diweddariadau yn erbyn amserlenni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig/strategaeth hirdymor
- Dangosyddion effaith
- Olrhain newid/cynnydd
- Defnyddio penawdau strategaeth sefydliadol fel fframwaith
- Adnabod risgiau

Codwyd y mater o ddiffyg capasiti dadansoddi a rhoddodd JM/IB sicrwydd bod gwaith yn cael ei wneud i flaenoriaethu hyn ac i wneud cynnydd arno.



### Camau gweithredu:

Cytunodd IB i weithio gyda JM/JB i ddychwelyd at yr eitem hon yng nghyfarfod nesaf KRIC ym mis Medi, a fyddai'n cynnwys templed ar gyfer adroddiadau ar waith craffu manwl yn y dyfodol.

#### KRIC 3.3/2024.06.06

#### Diweddariad ar y cynllun gweithredu a cherrig milltir y Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso

Darparodd AD ddiweddariad ar weithrediad y strategaeth Ymchwil a Gwerthuso, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023, i roi sicrwydd ar gynnydd y gwaith hwn.

Roedd y diweddariad yn cynnwys gwaith a wnaed ar werthuso arfer gorau ac adolygiad o drefniadau llywodraethu/risgiau i wella ansawdd ymchwil, yn ogystal â'r gwaith a wnaed gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru i nodi a datblygu arweinwyr ymchwil y dyfodol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Soniodd AD am y gwaith o ddatblygu partneriaethau ymchwil strategol rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydliadau fel Prifysgolion Abertawe a Chaerdydd. Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai'r partneriaethau'n cael eu hystyngi i ardaloedd eraill yng Nghymru. Sicrhodd AD/IB fod cysylltiadau â sefydliadau eraill yn bwysig i gryfhau gallu ymchwil Cymru ac i gyfeirio ymchwil at y rhai sydd â'r arbenigedd gorau a thynnodd sylw at gyhoeddi blaenoriaethau ymchwil ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, a fyddai'n cael eu defnyddio i helpu i ddatblygu perthnasoedd â chyllidwyr allanol ac ysgogi ymchwil i gwestiynau allweddol ar lefelau cenedlaethol, y DU gyfan a byd-eang.

Nododd y Pwyllgor gynnwys y papur hwn a chafodd **sicrwydd** fod Iechyd Cyhoeddus Cymru, a'r tîm Ymchwil a Gwerthuso, y diolchwyd iddynt am eu gwaith, yn cyflawni elfennau craidd y strategaeth.

#### KRIC 3.4/2024.06.06

#### Genomeg

Rhoddodd TCo ddiweddariad ar y gwaith a wnaed yn y rhaglen Genomeg yn dilyn yr eitem a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2024 a'r gwaith craffu manwl a wnaed ym mis Gorffennaf 2023.

Roedd y diweddariad hwn yn cwmpasu'r gwaith a wnaed i ddatblygu ac ymgorffori gwasanaethau genomig ar lefel y claf a lefel y boblogaeth, a sut y gallai hyn gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau strategol. Roedd hyn yn cynnwys chwe amcan y Cynllun Tymor Canolig sy'n gysylltiedig â'r rhaglen eleni a chynllun hyfforddi i wella sgiliau genomeg ar draws gweithlu Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Tynnodd TCo sylw at y gwaith a wnaed gydag ymchwilwyr ledled y DU i ddatblygu gwytnwch ac arloesedd mewn ymchwil genomeg, a'r ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal ar gyfer cynllun gweithlu genomeg strategol. Anogwyd aelodau'r pwyllgor i gynnwys unrhyw staff mewn meysydd sy'n gysylltiedig â gwaith genomeg yn yr ymgynghoriad.

Trafododd y Pwyllgor sut i sicrhau bod ymchwil yn trosglwyddo'n dda i wasanaethau, nododd TCo er bod gan rai meysydd o'r rhaglen genomeg megis genomeg pathogenau strwythur sefydlog ar gyfer hyn, roedd eraill megis genomeg ddynol yn dal i gael eu



datblygu ac roedd angen ymgymryd â gwaith sganio'r gorwel a chysoni â rhannau eraill o'r DU. Cydnabu'r Pwyllgor fod hwn yn faes sy'n datblygu'n gyflym lle roedd ICC yn cymryd yr arweiniad ledled y DU a thu hwnt, ac roedd hynny i'w ganmol.

Diolchodd SG i TCo am y diweddariad a nododd y gwaith a wnaed i gysylltu'r gwaith genomeg ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ar y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn amcanion y Cynllun Tymor Canolig Integredig ac ar yr ystod o weithgareddau eraill sy'n cael eu cyflawni. Fe wnaeth hefyd **gymeradwyo'r** nod o ddatblygu cynlluniau allweddol ar y cyd ar gyfer dadansoddi, data ac ymchwilio i agweddau ar weithgarwch mewn ffordd draws-sefydliadol.

**Camau gweithredu:** Cytunodd IB i weithio gyda TCo i gysoni'r gwaith hwn â'r strategaethau Ymchwil a Gwerthuso/Digidol a Data.

#### KRIC 3.5/2024.06.06

#### Deallusrwydd Artiffisial

Rhoddodd LN ddiweddariad ar y gwaith a wnaed i ddatblygu'r defnydd o ddeallusrwydd artiffisial mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Roedd y diweddariad hwn yn cynnwys recriwtio staff Gwyddorau Bywyd i'r gweithgor deallusrwydd artiffisial a fu o gymorth i sicrhau bod cynnydd y cynllun gwaith ar y trywydd iawn a gweithio ar fapio ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Tynnodd LN sylw at bwysigrwydd polisi arferion da a canllawiau ar gyfer deallusrwydd artiffisial, a nododd y gwaith a arweiniwyd gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod o fabwysiadu'r gwasanaeth Rheoleiddio Digidol ar gyfer Deallusrwydd Artiffisial a ddefnyddir yn Lloegr.

Soniodd LN am brofion AI presennol mewn meysydd diagnostig megis sgrinio ar gyfer cancer y fron/yr ysgyfaint a datblygu canllawiau ar gyfer gweithredu deallusrwydd artiffisial yn y dyfodol ledled Cymru. Roedd gwaith ar ddeallusrwydd artiffisial cynhyrchiol wedi'i ddatblygu, megis cymryd rhan yng nghynllun Cyd-Beilot Deallusrwydd Artiffisial Microsoft a phrynu 4 trwydded ar gyfer Chat GPT 4 gan yr Awdurdod Dylunio Digidol a Data.

Byddai'r eitem hon ar yr agenda ar gyfer Sesiwn Ddatblygu'r Bwrdd ym mis Hydref 2024 i edrych ar yr awydd i wneud defnydd pellach o ddeallusrwydd artiffisial. Awgrymodd y Pwyllgor fod angen defnyddio enghreifftiau penodol er mwyn eu harddangos yn glir.

Holodd y Pwyllgor a oedd capasiti i gyflawni'r cyfleoedd yn ymwneud â deallusrwydd artiffisial. Nododd LN fod capasiti da ar hyn o bryd, ond efallai y bydd angen rhagor o arbenigedd wrth i'r gwaith ddatblygu. Bu'r Pwyllgor hefyd yn trafod sut y gallai diffyg aeddfedrwydd digidol effeithio ar y gwaith hwn, a nododd IB y cynhaliwyd ymgyrch recriwtio i lenwi bylchau mewn sgiliau megis ymchwil i ddefnyddwyr a dadansoddi data ond bod llawer o ystâd TG Iechyd Cyhoeddus Cymru yn hen ffasiwn a bod angen ei symud i'r cwmwl. Tynnodd IB sylw at yr angen am gofnod iechyd electronig a bu'n rhan o drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru ynghylch dod o hyd i hyn.



<p>Diolchodd SG i LN am y diweddariad. <b>Nododd</b> y Pwyllgor y cynlluniau gwaith ar gyfer deallusrwydd artiffisial yn Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r cydweithio sy'n digwydd ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol (a chyfraniad ICC at hyn).</p>	
<b>KRIC 3.6/2024.06.06</b>	<b>Rheoli Risgiau</b>
<b>KRIC 3.6.1/2024.06.06</b>	<b>Cofrestr Risgiau Strategol</b>
<p>Rhoddodd DG drosolwg o Risgiau Strategol 1 a 2 sy'n dod o dan gylch gwaith y Pwyllgor.</p> <p>Nodwyd bod gan y ddwy risg strategol sgôr uchel ar hyn o bryd, a bod cynnydd wedi arafu mewn perthynas â Risg 2.</p> <p>Nododd DG y byddai fersiwn nesaf y papur hwn yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Gorffennaf 2024, gyda dadansoddiad o risgiau strategol a chorfforaethol yn erbyn lefelau archwaeth risg cymeradwy yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn yr Hydref.</p> <p>Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i Risgiau Strategol 1 a 2 a chafodd <b>sicrwydd</b> eu bod yn cael eu rheoli.</p>	
<b>KRIC 3.6.2/2024.06.06</b>	<b>Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol</b>
<p>Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r Risgiau Corfforaethol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor. Nododd IB y byddai angen diweddariad ar hyn ac felly byddai'n gweithio gyda DG i fynd i'r afael â hyn.</p> <p><b>Camau Gweithredu: IB</b></p> <p>Cafodd y Pwyllgor <b>sicrwydd</b> ynghylch y Gofrestr Risgiau Corfforaethol sydd wedi'i diweddarau ac ar reoli risgiau o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.</p>	
<b>KRIC 3.7/2024.06.06</b>	<b>Crynodeb Chwemisol o Bolisiau</b>
<p>Darparodd PV drosolwg o'r Crynodeb Chwemisol o Bolisiau a oedd yn nodi bod y ddau bolisi a drafodwyd, y Polisi Eiddo Deallusol a'r Polisi Camymddwyn mewn Ymchwil, yn gyfredol ac nad oedd unrhyw gamau gweithredu heb eu cyflawni.</p> <p>Cafodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch y blaenoriaethu a'r cynnydd a wnaed i adolygu polisiau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.</p>	
<b>KRIC 4/2024.06.06</b>	<b>Eitemau i'w Cymeradwyo</b>
<b>KRIC 4.1/2024.06.06</b>	<b>Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o'r Cyfarfod a gynhaliwyd ar 05 Mawrth 2024</b>
<p><b>Cymeradwyodd</b> y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth fel cofnod cywir a <b>chymeradwyodd</b> y newidiadau a wnaed i'r cofnod o gamau gweithredu.</p>	
<b>KRIC 4.2/2024.06.06</b>	<b>Polisiau i'w cymeradwyo</b>
<p>Nid oedd unrhyw bolisiau yn y cyfarfod hwn.</p>	



<b>KRIC 5/2024.06.06</b>	<b>I'w Argymell i'r Bwrdd</b>
<p>Y tu allan i'r cyfarfod, <b>cymeradwyodd</b> y Pwyllgor y dogfennau a ganlyn, gan nodi iddynt gael eu cyflwyno i'r Bwrdd ym mis Mai:</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor 2023/24</li><li>• Cylch Gorchwyl y Pwyllgor</li><li>• Effeithiolrwydd y Pwyllgor</li><li>• Cynllun Gwaith y Pwyllgor</li></ul> <p>Mewn perthynas â Chynllun Gwaith y Pwyllgor, nododd y Pwyllgor y newid yn dilyn y cyfarfod heddiw i ychwanegu adolygiad o'r Gwaith Craffu Manwl ar Ffactorau'n Ymwneud â Ffordd o Fyw at y cyfarfod ym mis Medi. Camau Gweithredu: LB/JM</p>	
<b>KRIC 6/2024.06.06</b>	<b>Eitemau i'w Nodi</b>
<b>KRIC 6.1/2024.06.06</b>	<b>Adroddiadau Archwilio</b>
Nid oedd unrhyw adroddiadau archwilio i'w trafod.	
<b>KRIC 7/2024.06.06</b>	<b>Materion Gweinyddol i Gloi</b>
<p>Unrhyw fater arall: Dim.</p> <p>Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi eu hadborth ar y cyfarfod drwy e-bost i LB, gan gynnwys yr hyn a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i wella arnynt.</p> <p>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: <b>5 Medi 2024.</b></p>	
Daeth y cyfarfod i ben am 13:30	

HEB EU CADARNHAU